

Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd)

Rhybudd Ymgynghoriad am Newidiadau Materion sy'n Codi i Gynllun Datblygu Lleol
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI) yn destun Archwiliad ar hyn o bryd. Mae'r Cynghorau yn ymgynghori ar nifer o newidiadau arfaethedig sydd wedi dod i'r amlwg yn bennaf o ganlyniad i faterion yn codi yn ystod gwrandawriadau'r Archwiliad. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud ag elfennau o ddatganiad ysgrifenedig y CDLI a'r map cynigion ac wedi eu nodi mewn Cofrestr Newidiadau Materion yn Codi (NMC). Bydd y cyfnod ymgynghori yn digwydd o **Ddydd Iau 26 Ionawr tan hanner nos Ddydd Iau 9 Mawrth 2017**.

Gellir archwilio'r Gofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi, ynghyd â dogfennau'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) NMC (yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) NMC ym mhob llyfrgell gyhoeddus yn Ynys Môn a Gwynedd, Siopau Gwynedd (Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau); prif swyddfa'r Cyngor yn Llangefni, a swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT.

Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan y ddau Gyngor yn www.ynysmon.gov.uk/cdll a www.gwynedd.llyw.cymru/cdll.

Dylid cyflwyno'r sylwadau (yn ddelfrydol ar ffurflen cyflwyno sylwadau) ynglŷn â'r Newidiadau Materion sy'n Codi, AC o'r NMC, ARhC o'r NMC i swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT neu trwy e-bost i polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru i gyrraedd dim hwyrach na **hanner nos dydd Iau 9 Mawrth 2017**.

Mae'n rhaid i'r sylwadau fod ynglŷn â'r Newidiadau Materion sy'n Codi yn unig. Ni ddylid cyflwyno newidiadau pellach i'r CDLI gwreiddiol. Bydd unrhyw sylwadau o'r math yma yn cael eu hanwybyddu oherwydd y dylid fod wedi eu cyflwyno yn ystod camau cynharach o baratoi'r CDLI. Nodwch os gwelwch yn dda y bydd pob un sylw yn gyhoeddus ac ni ellir eu trin nhw fel rhai cyfrinachol.

Mae ffurflen ar gael i gyflwyno sylwadau o'r cyfeiriadau uchod neu ar lein yn www.ynysmon.gov.uk/cdll a www.gwynedd.llyw.cymru/cdll.

Bydd sylwadau a gaiff eu cyflwyno yn unol â'r rhybudd yma (h.y. 'a wnaed yn briodol') yn cael eu hystyried gan Arolygwyr yr Archwiliad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT ☎ 01286 685003/ 01286 679668 neu polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

Dafydd W Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd	Dylan J Williams, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn
---	---